O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

# 2011 Rhif 2380 (Cy.253)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A44 (Gwahanol Fannau rhwng Llangurig ac Eisteddfa Gurig, Powys) (Cyfyngiadau Traffig a Gwaharddiad Traffig Dros Dro) 2011

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *26 Medi 2011* |
| *Yn dod i rym* | *1 Hydref 2011* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd y Drenewydd – Aberystwyth (yr A44) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig neu ei wahardd ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arnynt.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**1.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 1 Hydref 2011 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A44 (Gwahanol Fannau rhwng Llangurig ac Eisteddfa Gurig, Powys) (Cyfyngiadau Traffig a Gwaharddiad Traffig Dros Dro) 2011.

**2.** —(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw'r cyfnod sy'n dechrau am 08:00 o'r gloch ar 1 Hydref 2011 ac sy'n dod i ben pan fydd yr arwyddion traffig dros dro wedi cael eu tynnu oddi yno'n barhaol;

ystyr “y darnau o’r gefnffordd” (“*the lengths of the trunk road*”) yw'r darnau hynny o gefnffordd yr A44 rhwng Llangurig ac Eisteddfa Gurig yn Sir Powys a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl neu’r Atodlen sy’n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

**3.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 8, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darnau o'r gefnffordd a bennir ym mharagraffau (i) i (vi) o'r Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

**4.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 8, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd yn gyflymach na 30 milltir yr awr ar y darnau o'r gefnffordd a bennir ym mharagraffau (i) i (vi) o'r Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

**5.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 8, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd yn gyflymach na 10 milltir yr awr ar y darnau o'r gefnffordd a bennir ym mharagraffau (i) i (vi) o'r Atodlen i'r Gorchymyn hwn

**6.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 8, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, ddefnyddio cerbyd na chaniatáu i gerbyd gael ei ddefnyddio yn y fath fodd fel ei fod yn goddiweddyd unrhyw gerbyd arall ar y darnau o’r gefnffordd, a bennir ym mharagraffau (i) i (vi) o'r Atodlen i'r Gorchymyn hwn, ar yr adegau pan fo'r cyfyngiad y cyfeirir ato yn erthygl 5 ar waith.

**7.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 8, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, sy'n 2.5 metr ei led neu'n lletach na hynny, fynd ar y darnau o'r gefnffordd a bennir ym mharagraffau (iii), (iv) a (vi) o'r Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

**8.** Ni fydd darpariaethau erthyglau 3, 4, 5, 6 a 7 yn gymwys ond ar yr adegau ac i’r graddau y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y gwaharddiad a'r cyfyngiadau y maent yn cyfeirio atynt yn weithredol.

**9.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig y 26 Medi 2011

*G R Morgan*
**GARETH MORGAN**
Pennaeth Gwasanaethau Arbenigol Seilwaith
Llywodraeth Cymru

**(1)** 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26), adran 1(1) ac Atodlen 1.
**(2)** Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

## YR ATODLEN

i) Glansevern Arms

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 230 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt y fynedfa i Sŵn y Nant i bwynt 360 o fetrau i'r gorllewin o ganolbwynt y fynedfa honno.

ii) Llwyn yr Hyddod, ger Pont Rhydgaled

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 250 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â'r U2728 i bwynt 275 o fetrau i'r gorllewin o'r gyffordd honno.

iii) Pont Rhydgaled

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 200 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt y fynedfa i Bont Rhydgaled i bwynt 439 o fetrau i'r gorllewin o'r fynedfa honno.

iv) Six Sycamores i Nurses Corner, Pont Rhydgaled

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 990 o fetrau i'r gorllewin o ganolbwynt y fynedfa i Six Sycamores i bwynt 309 o fetrau i'r dwyrain o'r fynedfa honno.

v) Caffi Plynlimon

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 105 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt y fynedfa i Dyn y Cwm i bwynt 478 o fetrau i'r gorllewin o'r fynedfa honno.

<u>vi) Man i'r dwyrain o Orsaf Betrol Llangurig i fan i'r gorllewin o Aberbidno</u>

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 280 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt y fynedfa i Orsaf Betrol Llangurig i bwynt 608 o fetrau i'r gorllewin o ganolbwynt ei chyffordd â'r U2729.